



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer AB (GDLIC)

Mae GDLIC yn grant a asesir ar incwm o hyd at £1,500 ar gyfer cwrs amser llawn neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan-amser yn dibynnu ar incwm yr aelwyd.

Incwm blynyddol yr aelwyd	Rhan-amser (275-499 awr)	Amser llawn (500 + awr)
Hyd at £6,120	£750	£1,500
£6,121 - £12,235	£450	£750
£12,236 - £18,370	£300	£450
£18,371 ac uwch	£0	£0

Telir y grant bob tymor i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau amser llawn neu ran amser a gall helpu gyda chostau cyrsiau fel llyfrau, offer, cit a chostau gofal plant.

I fod yn gymwys i gael grant GDLIC

- rhaid i incwm eich cartref fod yn £18,370 neu lai
- rhaid i'ch cwrs fod o leiaf 275 awr
- bod mewn coleg sy'n cymryd rhan
- arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol.

Bydd manylion incwm yr aelwyd y mae'n rhaid i chi eu darparu yn dibynnu a ydych yn fyfyrwr dibynnol neu'n fyfyrwr annibynnol.

I gael rhagor o wybodaeth am gymhwystera ac i lawrlwytho ffurflen gais, cliciwch [yma](https://www.gowercollege.ac.uk/yma).

Os ydych eisoes yn derbyn GDLIC, ar yr amod eich bod yn symud ymlaen ar eich cwrs, ni fydd rhaid i chi ailymgeisio ond bydd angen i chi lofnodi Cytundeb Dysgu newydd.

Bydd Cyllid Myfyrwyr yn ysgrifennu atoch yn gofyn a ydych yn parhau â'ch cwrs ac a yw unrhyw un o'ch manylion wedi newid. Os nad ydych wedi derbyn Llythyr Dyfarniad newydd erbyn diwedd mis Mehefin, ffoniwch nhw ar 0300 200 4050 a'u cynghori eich bod yn parhau â'ch astudiaethau. Pan fyddwch yn derbyn Llythyr Gwobrwy newydd, cadwch ef yn ddiogel nes i'r Coleg ofyn am ei weld.

Pryd allaf wneud cais?

Mehefin 2020 - anfonwch eich cais GDLIC wedi'i lenwi gyda thystiolaeth wreiddiol erbyn y dyddiad hwn i sicrhau bod eich cyllid ar gael erbyn dechrau'ch cwrs.

31 Awst 2021 - dyma'r dyddiad olaf y bydd Cyllid Myfyrwyr yn derbyn eich cais i chi fod yn gymwys i gael GDLIC yn y flwyddyn academiaidd 2020-2021.

Canllaw cam wrth gam:

Adran 1: Datganiadau a chaniatâd

1.1 Ticiwch y datganiad sy'n berthnasol i chi a dilyn y cyfarwyddiadau.

O dan y Cytundeb Myfyriwr rhwch enw llawn y myfyriwr a dyddio a llofnodi'r ffurflen.

Caniatâd i rannu: gwnewch yn siŵr eich bod yn ticio **ie** os ydych yn rhoi caniatâd i'ch rhieni/gwarcheidwad gysylltu â Chyllid Myfyrwyr ar eich rhan neu **na** os ydych yn anghytuno.

Cytundeb Trydydd Parti A/B/C: (tudalennau 4 a 5) – dylech lenwi hwn dim ond os ydych wedi'ch awdurdodi i weithredu a/neu dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr. Bydd rhaid i chi anfon tystiolaeth o hyn (gweler tudalen 3 y Nodiadau Cais am enghreifftiau).

Adran 2: Manylion y myfyriwr

Atebwch **ie** neu **na** i gwestiwn 2.1 os ydych wedi cael LCA o'r blaen.

Os gwnaethoch ateb **ie** i 2.2 rhwch y dyddiadau pan gawsoch GDLIC a'r cwrs roeddech yn ei ddilyn neu fel arall atebwch **na**.

Os ydych yn gwneud cais am GDLIC am y tro cyntaf gadewch 2.3 yn wag gan na fydd Cyfeirnod Cwsmer gennych eto.

Cwblhewch eich manylion personol ar gyfer 2.4. Bydd rhaid i chi roi prawf o'ch oedran a'ch hunaniaeth. Ewch i dudalen 5 y [nodiadau cais](#) i weld rhestr o'r hyn y gallwch ei anfon.

Nodwch pa iaith sy'n well gennych ar gyfer 2.5 ac wrth gwblhau 2.6 gofynnir i chi anfon copi o fil cartref sy'n dangos eich cyfeiriad cartref. Gall y prawf hwn fod yn enw'r myfyriwr neu'r rhiant/gwarcheidwad/partner a rhaid ei ddyddio **o fewn y tri mis olaf** i chi wneud cais.

Yr ateb i 2.7 fydd y cwestiwn diogelwch a ofynnir i chi pe bai angen i chi siarad â Chyllid Myfyrwyr ar unrhyw adeg.

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'ch statws orau. Cyfeiriwch at y nodiadau i weld a oes angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth.

Adran 3: Eich manylion talu

Os ydych yn llenwi'r adran hon fel trydydd parti awdurdodedig a fydd yn dal taliadau grant y myfyriwr ar ei ran, ticiwch **ie** - bydd angen i chi ddarparu eich manylion banc ar gyfer 3.3. Bydd angen i chi anfon prawf wedi'i lungopïo (gweler tudalen 4 y Nodiadau Cais. Os mai chi yw'r myfyriwr ticiwch **na** a chwblhewch eich manylion banc ar gyfer 3.2.

Adran 4: Manylion ysgol neu goleg y myfyriwr

Llenwch 4.1 gyda manylion ble byddwch yn astudio. Ewch i [wefan](#) Coleg Gŵyr Abertawe am gyfeiriadau llawn y campysau gwahanol.

Ychwanegwch fanylion eich cwrs ar gyfer 4.2. Dyddiad dechrau'ch cwrs fydd 09/2020 a'r dyddiad gorffen fydd 06/2021 os ydych yn astudio cwrs blwyddyn, neu 06/2022 os yw'ch cwrs yn rhedeg am ddwy flynedd.

Ticiwch na i 4.5 – ni fyddwch yn derbyn lwfans tra byddwch ar y cwrs.

Adran 5: Manylion cenedligrwydd a phreswyl y myfyriwr

Os ydych yn ddinesydd yn y DU ac yn meddu ar basbort dilys, gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'ch manylion pasbort o dan 5.1. Ni fydd angen i chi anfon eich pasbort. Os yw'ch pasbort wedi dod i ben neu os nad oes gennych basbort y DU, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni wreiddiol gyda'ch ffurflen gais.

Os nad ydych yn ddinesydd yn y DU, cwblhewch yr adran sy'n berthnasol i chi ac anfonwch y dogfennau gwreiddiol perthnasol y gofynnwyd amdanynt. Ewch i dudalen 7 y nodiadau cais i gael gwybodaeth bellach ynghylch y dogfennau y mae'n rhaid i chi eu hanfon.

Adran 6: Hanes preswyl y myfyriwr

Rhowch fanylion eich cyfeiriad am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn gyntaf eich cwrs.

Os gwnaethoch symud i Gymru o gyfeiriad y tu allan i Gymru ticiwch **ie** i 6.2 a rhwch y cyfeiriad. Yn 6.3 ticiwch y rheswm pam gwnaethoch symud i Gymru.

Adran 7: Manylion annibyniaeth y myfyriwr

Os yw unrhyw un o'r datganiadau yn berthnasol i chi, ticiwch y blwch a darparu'r dystiolaeth wreiddiol y gofynnwyd amdani yn y Nodiadau Cais ar dudalen 13. Rydych yn **fyfyriwr annibynnol** ac mae angen i chi fynd i Adran 8.

Os na wnaethoch dicio unrhyw un o'r datganiadau rydych yn **fyfyriwr dibynnol** ac mae angen i chi fynd i Adran 9.

Adran 8: Manylion ariannol y myfyriwr annibynnol

Dylech lenwi'r adran hon dim ond os ydych yn fyfyriwr annibynnol.

Rhan A

Gofynnir i chi ddarparu amcangyfrifon o'ch incwm disgwylidiedig rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021. Rhwch amcangyfrif ar gyfer pob math o incwm a restrir yn 8.1 i 8.6. Ysgrifennwch Amh. lle nad ydych yn derbyn y math incwm hwnnw. Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni chaiff eich cais ei brosesu.

8.1 Do you currently receive Income Support or income-related Employment and Support Allowance?	☐ No ☐ Yes
8.2 Do you currently receive Universal Credit?	☐ No ☐ Yes
8.3 Income from gross salary and wages?	£ N/A
8.4 Income from self-employment?	£

Rhan B

Gofynnir i chi ddarparu amcangyfrifon o'ch didyniadau cartref rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021.

Rhowch amcangyfrif ar gyfer pob math o ddiwydriad a restrir yn 8.7 i 8.10. Ysgrifennwch Amh. os nad ydych yn derbyn y math incwm hwnnw. Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni chaiff eich cais ei brosesu.

8.7 Deductions towards private pension contributions	£ N/A
Don't include any payments to a workplace pension.	
8.8 Deductions towards Additional Voluntary Contributions (AVCs)	£
8.9 Deductions towards wages for domestic help due to incapacity	£
8.10 Deductions towards any other employment related expenses	£

Adran 9: Manylion ariannol

Rhan A

Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n bedair rhan a dylid ei llenwi os yw'r myfyriwr yn ddibynnol arnoch chi.

Os ydych yn rhiant sengl i'r myfyriwr

Rhowch eich gwybodaeth fel Rhiant 1, gadewch Riant 2 / partner y myfyriwr yn wag.

Os oes dau riant ar aelwyd y myfyriwr

Llenwch yr adran hon gyda gwybodaeth ar gyfer Rhiant 1 a Rhiant 2 / partner myfyriwr. Cofiwch lenwi'r blwch **perthynas â'r myfyriwr**.

Os mai chi yw partner y myfyriwr

Rhowch eich gwybodaeth fel Rhiant 2/partner myfyriwr. Cofiwch lenwi'r blwch **perthynas â'r myfyriwr**, gadewch Riant 1 yn wag.

Bydd tudalen 15 y nodiadau cais yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Rhan B

Bydd yr Adran hon yn edrych ar eich gwybodaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth 2019/20.

- Rhaid i chi ateb pob cwestiwn, os nad ydych yn derbyn math penodol o incwm ysgrifennwch Amh. (amherthnasol).
- Pan fyddwch yn ateb ie i gwestiwn, rhaid i chi roi symiau incwm gros (cyn treth) a rhaid iddynt fod ar gyfer y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2019 i 5 Ebrill 2020.
- Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni chaiff eich cais ei brosesu.

Nid oes angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth o fanylion ariannol, gall Cyllid Myfyriwyr ysgrifennu allan i ofyn am hyn yn nes ymlaen.

Os yw incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol er 2018/2019, darllenwch dudalen 15 y nodiadau cais ynghylch beth i'w wneud nesaf.

Rhan C

Mae'r adran hon yn gofyn i chi a oes gennych unrhyw incwm arall ar gyfer y flwyddyn dreth 2018/19.

- Rhaid i chi ateb pob cwestiwn, os nad ydych yn derbyn math penodol o incwm ysgrifennwch Amh. (amherthnasol).
- an fyddwch yn ateb ie i gwestiwn, rhaid i chi roi symiau incwm gros (cyn treth) a rhaid iddynt fod ar gyfer y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2018 i 5 Ebrill 2019.
- Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni chaiff eich cais ei brosesu.

Rhan D

Mae'r adran hon yn edrych ar ddiwydiadau incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2018/19.

- Rhaid i chi ateb pob cwestiwn, os nad ydych yn derbyn math penodol o incwm ysgrifennwch Amh. (amherthnasol).
- Pan fyddwch yn ateb ie i gwestiwn, rhaid i chi roi symiau incwm gros (cyn treth) a rhaid iddynt fod ar gyfer y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2018 i 5 Ebrill 2019.
- Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni chaiff eich cais ei brosesu.

Adran 10: Datganiad rhieni/partner

Os ydych yn rhiant sengl i'r myfyriwr, cwblhewch Rhiant 1 a gadael Rhiant 2 yn wag.

Os oes dau riant neu un rhiant a'u partner, cwblhewch Rhiant 1 a Rhiant 2/partner y myfyriwr. Dylai partner eich rhiant lenwi'r datganiad ar gyfer Rhiant 2.

Os ydych yn fyfyrwr annibynnol gyda phartner, mae angen i'ch partner gwblhau Rhiant 2/partner myfyriwr, gadewch Rhiant 2 yn wag.

Os ydych yn fyfyrwr annibynnol heb bartner, peidiwch â llenwi'r adran hon - rydych chi eisoes wedi llofnodi'ch datganiad yn Adran 1.

Adran 11: Cwblhau'ch cais

Rhaid i'r myfyriwr ateb cwestiynau 11.1 i 11.4 a llenwch yr holiadur Cyfle Cyfartal ar dudalen 28.

Tri pheth i'w cofio

1) Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi mor gynnar ag sy'n bosibl cyn dechrau'ch cwrs. Os nad oes gennych eich holl ddogfennau ategol, anfonwch y ffurflen ac anfon y dystiolaeth pan gewch chi hi.

2) Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl dystiolaeth gyda'ch cais wedi'i lenwi, prawf o'r cyfeiriad cartref wedi'i ddyddio yn y tri mis diwethaf, tystysgrif geni wreiddiol os nad ydych wedi nodi manylion pasbort dilys ar y ffurflen.

3) Gwnewch yn siŵr eich bod yn talu'r pris postio iawn trwy bwysu'r eitem yn y Swyddfa Bost a gofynnwch am brawf postio. Dychwelwch i'r cyfeiriad canlynol:

Student Finance Wales
FE Customer Services
PO Box 5597
Glasgow
G52 9BS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallwch olrhain eich cais gan ddefnyddio'r [ddolen](#) ganlynol.

Pan fydd eich cais wedi'i gymeradwyo, bydd Cyllid Myfyrwyr yn anfon Llythyr Dyfarniad atoch gyda Rhif Cyfeirnod Cwsmer. Bydd eich llythyr dyfarnu hefyd yn cadarnhau ble byddwch chi'n astudio. Gwiriwch fod hyn yn gywir a hefyd bod y campws a ddangosir mewn cromfachau yn gywir. Os oes angen newid hyn, bydd angen i chi ffonio Cyllid Myfyrwyr ar **0300 200 4050** a gofyn iddynt ei newid cyn gynted â phosibl. Cadwch y llythyr yn ddiogel oherwydd bydd ei angen arnoch i lofnodi'ch Cytundeb Dysgu pan fyddwch chi'n dechrau'r Coleg.

Pryd fyddwch yn cael eich talu?

- Cyn i chi dderbyn eich taliad cyntaf bydd angen i chi lofnodi'ch Cytundeb Dysgu AB GDLIC gyda'r Coleg.
- Bydd y Coleg yn cadarnhau manylion eich cwrs a'ch bod wedi bod yn bresennol i Gyllid Myfyrwyr Cymru.
- Os ydych yn mynychu fel y cytunwyd yn y meini prawf presenoldeb isod, cewch eich talu unwaith bob tymor (3 thymor), yn uniongyrchol i'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu.

Meini prawf presenoldeb:

1. Bod rhaid i mi sicrhau presenoldeb o 80% trwy gydol y flwyddyn, gyda phythefnos o bresenoldeb bob tymor cyn i'r grant gael ei ryddhau.
2. Na fydd fy nhaliad cyntaf yn cael ei ryddhau tan fis Hydref.
3. Bod yn rhaid i mi gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

I gael unrhyw gymorth neu gyngor pellach, cysylltwch â'r Tîm Cyllid Myfyrwyr a fydd yn gallu'ch helpu

studentfunding@coleggwyrabertawe.ac.uk